# Ysgolion (Canllawiau Iechyd a Diogelwch)

## Rheoli Meddyginiaeth mewn Ysgolion

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2019 (f2)
Adolygiad: Ionawr 2022

**Llofnod y Pennaeth /Headteachers signature:** G Davies

**Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Chair of governors signature:** M Charles

**Adolygwyd / reviewed: Haf / Summer 2025**

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

## Cynnwys


RHEOLI MEDDYGINIAETH MEWN YSGOLION ........ 3

1.0 CYFLWYNIAD ........ 3

2.0 GOSOD TREFNIADAU A GWEITHDREFNAU RHEOLI ........ 4

3.0 MEDDYGINIAETH ........ 4

- 3.1 MEDDYGINIAETHAU PRESGRIPSIWN ........ 4
- 3.2 ANGHENION MEDDYGOL HIRDYMOR ........ 5
- 3.3 CYFFURIAU A REOLIR ........ 6
- 3.4 MEDDYGINIAETHAU DI-BRESGRIPSIWN ........ 6
- 3.5 CADW COFNODION ........ 7
- 3.6 GWEITHDREFNAU PERSONOL NEU YMYRROL ........ 7
- 3.7 HUNANREOLI ........ 7
- 3.8 GWRTHOD MEDDYGINIAETH ........ 7
- 3.9 YMWELIADAU ODDI AR Y SAFLE ........ 7
- 3.10 GWEITHGAREDDAU CHWARAEON ........ 8

4.0 HYLENDID A RHEOLI HEINTIAU ........ 8

5.0 CYNGOR PELLACH ........ 8

ATODIAD 1 ........ 9

- FFURFLENNI ........ 9
  - FFURFLEN 1: CYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU BRYS ........ 10
  - FFURFLEN 2: CYNLLUN GOFAL IECHYD ........ 11
  - FFURFLEN 3A: CYTUNDEB Y RHIENI I'R YSGOL/LLEOLIAD ROI MEDDYGINIAETH ........ 15
  - FFURFLEN 3B: CYTUNDEB RHIENI I'R YSGOL/LLEOLIAD ROI MEDDYGINIAETH ........ 17
  - FFURFLEN 4: CYTUNDEB PENNAETH YR YSGOL/LLEOLIAD I ROI MEDDYGINIAETH ........ 18
  - FFURFLEN 5: COFNOD O FEDDYGINIAETH A RODDWYD I BLENTYN UNIGOL ........ 19
  - FFURFLEN 6: COFNOD O FEDDYGINIAETHAU A RODDWYD I BOB PLENTYN A PHERSON IFANC ........ 21
  - FFURFLEN 7: CAIS I BLENTYN GARIO EI FEDDYGINIAETH EI HUN ........ 23
  - FFURFLEN 8: COFNOD O HYFFORDDIANT STAFF – RHOI MEDDYGINIAETHAU ........ 24
  - FFURFLEN 9: AWDURDODI RHOI BUCCAL MIDAZOLAM ........ 25

# RHEOLI MEDDYGINIAETH MEWN YSGOLION

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu llunio i gynorthwyo sefydliadau wrth osod trefniadau rheoli lleol ar gyfer rhoi meddyginiaeth.

1.2 Bydd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion gyflwr meddygol ar ryw adeg a allai effeithio arnynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol, ac i lawer bydd hon yn sefyllfa tymor byr. Mae gan ddisgyblion eraill gyflyrau meddygol a allai gyfyngu ar eu mynediad at addysg os nad ydynt yn cael eu rheoli'n briodol.

1.3 Mae'r rhan fwyaf o blant ag anghenion meddygol yn gallu mynychu'r ysgol yn rheolaidd a, chyda rhywfaint o gymorth oddi wrth yr ysgol, yn gallu cymryd rhan yn y mwyafrif o weithgareddau ysgol cyffredin. Fodd bynnag, gallai fod angen i staff yr ysgol gymryd gofal ychwanegol wrth oruchwylio rhai gweithgareddau i sicrhau nad yw'r disgyblion hyn ac eraill yn cael eu rhoi mewn perygl.

1.4 Mae Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymrwymedig i sicrhau bod gan blant ag anghenion meddygol yr un hawl mynediad â phlant eraill.

1.5 Mae rhai plant ag anghenion meddygol wedi'u hamddiffyn rhag gwahaniaethu o dan ddarpariaethau gwahaniaethu ar sail anabledd Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf (Rhan 6, Pennod 1, pwynt 85) yn nodi na ddylai cyrff sy'n gyfrifol am ysgolion wahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl mewn perthynas â'u mynediad at addysg a gwasanaethau cysylltiedig.

1.6 Nid oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi meddyginiaeth; rôl wirfoddol yw hon. Fodd bynnag, mae dyletswydd i sicrhau bod aelodau o staff sy'n gwirfoddoli i roi meddyginiaeth yn derbyn cefnogaeth oddi wrth y Pennaeth a'r rhieni, yn cael mynediad at wybodaeth a hyfforddiant, a sicrwydd am eu hatebolrwydd cyfreithiol. Mae'r ddyletswydd gofal yn estyn i roi meddyginiaeth dan amgylchiadau eithriadol ac felly mater i ysgolion yw penderfynu ar eu polisi lleol ar gyfer rhoi meddyginiaeth.

1.7 Dylai ysgolion sicrhau bod ganddynt nifer digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i reoli meddyginiaethau fel rhan o'u dyletswyddau. Dylai staff o'r fath dderbyn hyfforddiant a chymorth priodol oddi wrth swyddogion iechyd proffesiynol, a ddylai ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o'u hyfedredd mewn unrhyw weithdrefn feddygol.

1.8 Mae pob aelod o staff mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol o dan yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wrth weithredu ar ran y cyngor sir. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddyletswyddau a gyflawnir i gefnogi cynllun gofal iechyd. Gellir dod o hyd i ganllawiau manwl yng Nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y wefan ganlynol:

Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol

1.9 Mae'n rhaid i bob sefydliad addysgol sicrhau eu bod hwy a'u staff yn gyfarwydd â'r ddogfen ganllaw ac yn dilyn ei hargymhellion.

## 2.0 GOSOD TREFNIADAU A GWEITHDREFNAU RHEOLI

2.1 Mae trefniadau clir a dderbyniwyd gan staff a rhieni yn hanfodol a dylid eu cynnwys naill ai ym mhrosbectws yr ysgol neu fel rhan o Bolisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol.

2.2 Dylai'r trefniadau gwmpasu'r isod:

- Gweithdrefnau ar gyfer rheoli meddyginiaethau presgripsiwn
- Gweithdrefnau ar gyfer rheoli meddyginiaethau presgripsiwn ar deithiau a gwibdeithiau
- Datganiad clir ar rolau a chyfrifoldebau staff sy'n rheoli rhoi meddyginiaethau
- Datganiad ar gyfrifoldebau'r rhieni mewn perthynas ag anghenion meddygol y plentyn
- Yr angen am gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw oddi wrth rieni ar gyfer unrhyw feddyginiaethau i'w rhoi i blentyn
- Yr amgylchiadau lle y gall plant gymryd meddyginiaethau di-bresgripsiwn
- Polisi'r ysgol ar roi cymorth i blant ag anghenion meddygol cymhleth
- Y polisi ar blant yn cario ac yn cymryd eu meddyginiaethau eu hunain
- Hyfforddiant staff er mwyn delio ag anghenion meddygol
- Cadw cofnodion
- Storio meddyginiaethau’n ddiogel
- Mynediad at weithdrefnau brys yr ysgol
- Asesiad risg a gweithdrefnau rheoli

## 3.0 MEDDYGINIAETH

Lle bynnag y bo modd, dylai'r rhieni roi meddyginiaeth neu oruchwylio plant yn rhoi meddyginiaeth i'w hunain. Gallai hyn gael ei wneud drwy'r plentyn yn mynd adref yn ystod yr egwyl cinio neu'r rhiant yn ymweld â'r ysgol. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn ymarferol ac mewn achosion o'r fath dylai'r rhieni wneud cais i feddyginiaeth gael ei rhoi i'r plentyn yn yr ysgol/sefydliad.

Ni ddylai unrhyw blentyn o dan 16 oed gael unrhyw feddyginiaeth wedi'i rhoi iddynt heb ganiatâd ysgrifenedig y rhieni.

### 3.1 MEDDYGINIAETHAU PRESGRIPSIWN

3.1.1 Lle bo'n bosibl mae'n ddefnyddiol i'r feddyginiaeth gael ei rhagnodi mewn amlder dos sy'n galluogi ei chymryd y tu allan i oriau ysgol. E.e. gall meddyginiaethau mae angen eu cymryd dair gwaith y dydd gael eu rheoli gartref. Dylai rhieni gael eu hannog i holi'r presgripsiynydd ynglŷn â hyn.

3.1.2 Dylai meddyginiaethau o'r fath ond gael eu cymryd i'r ysgol neu leoliadau pan fo'n hanfodol; hynny yw pan fyddai'n niweidiol i iechyd y plentyn pe na bai'r feddyginiaeth yn cael ei rhoi yn ystod 'diwrnod' yr ysgol neu leoliad. Dim ond meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi gan feddyg, deintydd, nyrs bresgripsiynydd neu fferyllydd bresgripsiynydd ddylai ysgolion a lleoliadau eu derbyn.

3.1.1 Dylai meddyginiaethau bob amser gael eu darparu yn y cynhwysydd gwreiddiol fel y cafodd eu dosbarthu gan fferyllydd neu feddyg dosbarthu a chynnwys cyfarwyddiadau'r presgripsiynydd ar gyfer eu rhoi.

3.1.4 Ni ddylai ysgolion fyth dderbyn meddyginiaethau sydd wedi cael eu cymryd allan o'r cynhwysydd na gwneud unrhyw newidiadau i'r dos ar gyfarwyddyd y rhieni.

Ymhob achos mae'n angenrheidiol gwirio'r isod:

- Enw'r plentyn
- Enw'r feddyginiaeth
- Dos
- Cyfarwyddiadau ysgrifenedig a ddarparwyd gan y presgripsiynydd
- Dyddiad dod i ben

3.1.5 Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r feddyginiaeth sy'n cael ei rhoi.

3.1.6 Ni ddylid storio symiau mawr o feddyginiaeth. Dylai meddyginiaeth bresgripsiwn a gedwir yn y sefydliad gael ei storio dan glo mewn storfa briodol a dylid gwneud trefniadau i'w chyrraedd yn hwylus pan fo'n ofynnol. Dylai'r plant wybod ble mae eu meddyginiaethau yn cael eu storio a phwy sydd â'r allwedd.

3.1.7 Dylai pob meddyginiaeth frys (anadlyddion asthma, epi-pens ac ati) fod ar gael yn hawdd ac ni ddylid eu rhoi dan glo.

3.1.8 Os oes rhaid cadw'r feddyginiaeth mewn oergell, dylid gweithredu trefniadau priodol i sicrhau ei bod yn ddiogel ac ar gael pryd bynnag y bo angen.

3.1.9 Ni ddylai meddyginiaethau gael eu cadw mewn blwch cymorth cyntaf o dan unrhyw amgylchiadau.

## 3.2 ANGHENION MEDDYGOL HIRDYMOR

3.2.1 Mae'n bwysig i'r ysgol gael gwybodaeth ddigonol ynglŷn â chyflwr meddygol unrhyw ddisgybl sydd ag anghenion meddygol hirdymor.

Cynghorir bod ysgolion yn llunio cynllun gofal iechyd unigol ar gyfer disgyblion o'r fath sy'n cynnwys y rhieni a swyddogion iechyd proffesiynol.

3.2.2 Rhoddir cyngor ar lunio Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn nogfen Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol Llywodraeth Cymru.

3.2.3 Rhoddir cyngor cyffredinol ar gyflyrau cyffredin megis asthma, epilepsi, diabetes a sioc anaffylactig, epilepsi yn nogfen Mynediad i Addysg a Chymorth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Meddygol Llywodraeth Cymru.

Yn y lle cyntaf dylai nyrs yr ysgol fod y cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau ynglŷn â chyflyrau meddygol penodol neu, lle nad oes unrhyw nyrs ysgol ar gael, dylid cysylltu ag ymwelwyr iechyd, bydwragedd, meddygon teulu, clinigau lleol a chyfleusterau meddygol eraill cyhyd ag y bo'n bosibl am gyngor ar faterion meddygol, gan gynnwys beichiogrwydd.

3.2.4 Bydd unrhyw hyfforddiant penodol mae ei angen ar staff ar gyfer rhoi meddyginiaeth (e.e. adrenalin drwy EpiPen, Buccal Midazolam ac ati) yn cael ei ddarparu gan y nyrs ysgol neu swyddog meddygol proffesiynol e.e. meddyg teulu / ymgynghorydd, a ddylai ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o hyfedredd mewn unrhyw weithdrefn feddygol.

3.2.5 Ni ddylai staff roi meddyginiaethau o'r fath tan iddynt dderbyn hyfforddiant i wneud hynny.

## 3.3 CYFFURIAU A REOLIR

3.3.1 Mae cyffuriau a reolir megis Ritalin yn cael eu rheoli dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Felly mae'n hanfodol bod cyffuriau a reolir yn cael eu rheoli'n llym rhwng yr ysgol a'r rhieni.

3.3.2 Yn ddelfrydol, dylai cyffuriau a reolir ond gael eu dwyn i mewn i'r ysgol yn ddyddiol gan y rhieni ond yn sicr ni ddylai fod mwy na chyflenwad wythnos a dylai faint o feddyginiaeth a drosglwyddir i'r ysgol gael ei gofnodi bob amser.

3.3.3 Dylai cyffuriau a reolir gael eu storio mewn cynhwysydd dan glo nad oes modd ei symud megis diogell a dim ond aelodau penodol o staff a enwir a ddylai gael mynediad atynt. Bob tro mae'r cyffur yn cael ei roi mae'n rhaid ei gofnodi, gan gynnwys os gwrthododd y plentyn ei gymryd.

3.3.4 Os bydd disgyblion yn gwrthod cymryd y feddyginiaeth ni ddylai staff yr ysgol eu gorfodi i wneud hynny. Yna dylai'r ysgol hysbysu rhieni’r plentyn ar unwaith. Os yw'n angenrheidiol dylai'r ysgol gysylltu â'r gwasanaethau brys.

3.3.5 Dylai'r unigolyn sy'n rhoi'r cyffur a reolir fonitro bod y cyffur wedi cael ei gymryd. Mae rhoi cyffur a reolir i blentyn arall yn drosedd o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971.

3.3.6 Yn debyg i bob meddyginiaeth dylid cofnodi bod unrhyw feddyginiaeth na chafodd ei defnyddio yn cael ei dychwelyd i'r rhiant pan nad oes ei angen mwyach. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid ei dychwelyd i'r fferyllydd a wnaeth ei dosbarthu. Ni ddylid ei thaflu.

## 3.4 MEDDYGINIAETHAU DI-BRESGRIPSIWN

3.4.1 Argymhellir yn gryf na ddylai meddyginiaeth ddi-bresgripsiwn gael ei rhoi gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys paracetamol a meddyginiaethau homeopathig.

3.4.2 Efallai na fydd y staff yn gwybod a yw'r disgybl wedi cymryd dos blaenorol neu a allai'r feddyginiaeth adweithio ag unrhyw feddyginiaeth arall a gymerir. Ni ddylid byth rhoi meddyginiaeth sy’n cynnwys aspirin i blentyn o dan 16 oed oni bai ei bod wedi'i rhagnodi gan feddyg (Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)) gan fod cysylltiadau rhwng defnydd aspirin i drin salwch firaol a Syndrom Reyes, clefyd sy'n peri mwy o bwysedd ar yr ymennydd.

3.4.3 Pan fo sefydliadau unigol wedi penderfynu rhoi meddyginiaethau di-bresgripsiwn mae'n rhaid sicrhau caniatâd ysgrifenedig penodol oddi wrth rieni/gofalwyr a chofnodi rhoi'r feddyginiaeth.

3.4.4 Os bydd disgybl yn dioddef poen acíwt yn rheolaidd megis meigryn, dylai'r rhieni awdurdodi a chyflenwi tabledi lladd poen priodol at ddefnydd eu plentyn, gyda chyfarwyddiadau ysgrifenedig ynglŷn â phryd y dylai'r plentyn gymryd y feddyginiaeth.

Dylai aelod o staff hysbysu'r rhieni bod eu plentyn wedi gofyn am feddyginiaeth a goruchwylio'r disgybl yn cymryd y feddyginiaeth os yw'r rhieni wedi cytuno i feddyginiaeth gael ei chymryd.

### 3.5 CADW COFNODION

3.5.1 Dylai rhieni/gwarcheidwaid ddarparu manylion meddyginiaethau y mae angen i'w plentyn eu cymryd yn yr ysgol. (Gweler Atodiad – Ffurflenni 3A/B)

3.5.2 Er nad oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i ysgolion gadw cofnodion o feddyginiaethau'n sy'n cael eu rhoi i ddisgyblion, mae'n arfer da gwneud hynny.

Dylai ysgolion sicrhau bod staff yn cwblhau ac yn llofnodi cofnod bob tro maent yn rhoi meddyginiaeth i blentyn. Mae ffurflenni 5 a 6 yn yr Atodiad yn ddalenni cofnodi enghreifftiol.

3.5.3 Mewn rhai achosion, megis wrth roi Buccal Midazolam, mae'n arfer da sicrhau bod ail oedolyn yn dyst i'r dos/rhoi meddyginiaeth.

### 3.6 GWEITHDREFNAU PERSONOL NEU YMYRROL

3.6.1 Mae'n ddealladwy bod rhai aelodau o staff ysgol yn amharod i wirfoddoli i roi triniaeth bersonol neu ymyrrol (e.e. Buccal Midazolam ar gyfer trin epilepsi) oherwydd natur y driniaeth, neu ofn cyhuddiadau o gam-drin. Mae'n rhaid i rieni a Phenaethiaid barchu pryderon o'r fath ac ni ddylent roi unrhyw bwysau ar staff i gynorthwyo i roi triniaeth oni bai eu bod yn hollol fodlon.

3.6.2 Bydd gan bob Bwrdd Iechyd Lleol nyrs ysgol neu baediatregydd cymunedol y gall ysgolion droi atynt am gyngor. Dylai'r Pennaeth neu'r corff llywodraethol drefnu hyfforddiant priodol i staff yr ysgol sy'n fodlon rhoi cymorth meddygol. Pe bai'r ysgol yn gallu trefnu i ddau oedolyn, yn ddelfrydol un o'r un rhywedd â'r plentyn neu berson ifanc, fod yn bresennol ar gyfer rhoi triniaeth bersonol neu ymyrrol, mae hyn yn lleihau'r potensial am gyhuddiadau o gam-drin. Mae dau oedolyn yn aml yn lleddfu rhoi triniaeth yn ymarferol hefyd. Dylai staff amddiffyn urddas y plentyn neu berson ifanc cyhyd ag y bo'n bosibl, hyd yn oed mewn argyfyngau.

### 3.7 HUNANREOLI

3.7.1 Mae'n bwysig wrth i blant fynd yn hŷn eu bod yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb a rheoli eu meddyginiaeth eu hunain. Dylai hyn gael ei nodi'n glir yng nghynllun gofal iechyd y plentyn mewn cytundeb â'r rhieni, gan gadw diogelwch disgyblion eraill mewn cof. (SYLWER: Mae ysgolion preswyl yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rhan 2, Pennod 1, pwynt 14 Rheoliadau Cartrefi Plant).

3.7.2 Dylai staff fod yn ymwybodol o'r angen i'r rhai sydd ag asthma gario meddyginiaeth gyda nhw (neu i'r staff gymryd camau priodol) er enghraifft, pan fyddant yn cymryd rhan mewn addysg gorfforol yn yr awyr agored neu pe bai ymarfer gadael mewn argyfwng neu ymarfer tân.

3.7.3 Dylai plant wybod lle mae eu meddyginiaethau yn cael eu storio a phwy sydd â'r allwedd.

### 3.8 GWRTHOD MEDDYGINIAETH

3.8.1 Os bydd plentyn yn gwrthod cymryd meddyginiaeth, ni ddylai staff eu gorfodi i wneud, ond dylent nodi hyn yn y cofnodion a hysbysu'r rhieni am y gwrthodiad. Os yw'n angenrheidiol dylai'r ysgol gysylltu â'r gwasanaethau brys.

### 3.9 YMWELIADAU ODDI AR Y SAFLE

3.9.1 Mae'n arfer da i ysgolion annog disgyblion ag anghenion meddygol gymryd rhan mewn ymweliadau oddi ar y safle. Dylai'r holl staff sy'n goruchwylio ymweliadau fod yn ymwybodol o unrhyw

anghenion meddygol a gweithdrefnau brys perthnasol. Pan fo angen dylid cynnal asesiadau risg unigol.

3.9.2 Dylid sicrhau bod aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi i roi unrhyw feddyginiaeth benodol (e.e. epi-pens) yn mynd gyda'r disgybl a bod y feddyginiaeth briodol yn cael ei chymryd ar yr ymweliad.

3.9.3 Dylid cadw meddyginiaethau yn eu cynwysyddion gwreiddiol (mae amlen yn dderbyniol ar gyfer dos sengl - ar yr amod ei bod wedi'i labelu'n glir iawn). Dylid ysgrifennu'r wybodaeth ganlynol ar y label:

- ✓ Enw a dyddiad geni'r disgybl
- ✓ Enw'r feddyginiaeth
- ✓ Dos y feddyginiaeth
- ✓ Yr amseroedd y dylid cymryd y feddyginiaeth a sut (drwy'r geg, diferion llygaid ac ati)
- ✓ Dyddiad dod i ben y feddyginiaeth

### 3.10 GWEITHGAREDDAU CHWARAEON

3.10.1 Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion gyda chyflyrau meddygol gymryd rhan mewn Addysg Gorfforol (AG) a chwaraeon allgyrsiol. Dylid cofnodi unrhyw gyfyngiadau ar allu plentyn i gymryd rhan mewn AG yn eu Cynllun Gofal Iechyd Unigol. Pan fo angen, dylid cynnal asesiadau risg unigol.

3.10.2 Efallai y bydd angen i rai disgyblion gymryd mesurau rhagofalus cyn ymarfer corff neu ar ei ôl a gallai fod angen iddynt gael mynediad ar unwaith at eu meddyginiaethau (e.e. anadlyddion asthma). Dylai'r staff sy'n goruchwylio gweithgareddau chwaraeon fod yn ymwybodol o'r holl gyflyrau meddygol perthnasol a gweithdrefnau brys.

## 4.0 HYLENDID A RHEOLI HEINTIAU

Dylai'r holl staff ddilyn gweithdrefnau a chanllawiau ‘Nodwyddau, Pethau Miniog a Chlefydau a Gludir yn y Gwaed’ Cyngor Sir Caerfyrddin.

## 5.0 CYNGOR PELLACH

Dylid ceisio cyngor ar faterion meddygol o'r ffynonellau canlynol:

- Nyrsys ysgol dynodedig
- Cydlynwyr ac Athrawon Cynorthwyol Anghenion Addysgol Arbennig Cyngor Sir Caerfyrddin
- Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Lleol yr Ysgol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru - 01792 607 387 (gan gynnwys canllawiau ar glefydau trosglwyddadwy)
- Galw Iechyd Cymru – 0845 46 47
- Canolfan Llesiant Gweithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin – 01267 246060
- Canllawiau ar y cyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Hywel Dda i Ysgolion ar Reoli Diabetes

# ATODIAD 1

**FFURFLENNI**
Er mwyn helpu ysgolion i roi eu cymorth i blant ag anghenion meddygol, mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi nifer o ffurflenni enghreifftiol, fel y gwelir isod.

Efallai y bydd ysgolion a lleoliadau am ddefnyddio neu addasu’r rhain yn unol â’u polisïau penodol ar roi meddyginiaethau.

## FFURFLEN 1: CYSYLLTU Â'R GWASANAETHAU BRYS

**Cais am ambiwlans:**

Deialwch 999, gofynnwch am ambiwlans a gwnewch yn siŵr fod y wybodaeth ganlynol wrth law:

1. Eich rhif ffôn
2. Rhowch eich lleoliad fel a ganlyn (*rhowch gyfeiriad yr ysgol/lleoliad*)
3. Nodwch mai'r cod post yw
4. Rhowch eich union leoliad yn yr ysgol/lleoliad (*rhowch ddisgrifiad cryno*)
5. Rhowch eich enw
6. Rhowch enw’r plentyn a disgrifiad cryno o symptomau’r plentyn
7. Dywedwch wrth y Gwasanaeth Ambiwlans beth yw’r fynedfa orau ac y bydd yno rywun i gyfarfod â chriw’r ambiwlans a’i hebrwng i
8. Peidiwch â rhoi’r ffôn i lawr nes i chi glywed yr wybodaeth yn ôl.

**Siaradwch yn glir ac yn araf a byddwch yn barod i ailadrodd gwybodaeth os oes angen**

**Gadewch gopi o'r ffurflen hon wedi'i chwblhau wrth ymyl pob ffôn yn yr ysgol**

## FFURFLEN 2: CYNLLUN GOFAL IECHYD

Dylai'r cynllun iechyd nodi:

- Barn y plentyn neu'r person ifanc lle bo hynny'n bosibl.
- Dymuniad y rhieni ar gyfer y plentyn.
- Cydgysylltydd/gweithiwr allweddol ar gyfer gofal y plentyn.
- Unrhyw newidiadau a ragwelir i drefn ofal y plentyn neu'r person ifanc.
- Manylion cyswllt y tîm gofal iechyd paediatrig sy'n darparu cyngor, gofal a chymorth meddygol.
- Protocolau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng gwasanaethau addysg ac iechyd (gan ddiffinio cyfrifoldebau'n glir ac enwi pobl i gysylltu â nhw) gan gynnwys darparu gwybodaeth gywir sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd am anghenion plant a phobl ifanc unigol.
- Y feddyginiaeth mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei chymryd yn ystod oriau'r ysgol a'r tu allan iddynt.
- Caniatâd rhieni a'r Pennaeth i staff roi meddyginiaethau neu i'r plentyn neu'r person ifanc ei hun wneud hynny (Ffurflenni 3 a 4).
- Trefniadau ar gyfer unrhyw ofal brys neu ymyrrol, neu ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Dylid cydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i lunio gweithdrefnau brys.
- Dylid cynnal asesiad risg sy'n cynnwys cydnabod sefyllfaoedd brys posibl mewn perthynas ag anghenion iechyd y plentyn penodol hwnnw - mae cynllunio gwell yn arwain at lai o argyfyngau go iawn.
- Unrhyw anghenion gofal iechyd arbennig a all effeithio ar allu'r plentyn neu'r person ifanc i ddefnyddio gwasanaethau fel trafnidiaeth neu weithgareddau chwarae yn yr ysgol, gweithredu rhaglenni therapi ac ati.
- Sut i ddefnyddio, storio a gofalu am unrhyw gyfarpar.
- Unrhyw drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau addysg neu wasanaethau eraill pan fydd y plentyn yn rhy sâl i fynychu'r ysgol neu pan fydd mewn ysbyty neu leoliad gofal iechyd priodol arall.
- Dylai cynlluniau gofal iechyd gael eu hysgrifennu ar y cyd gan weithwyr iechyd proffesiynol a rhieni. Dylai'r rhieni, y Pennaeth a gweithwyr iechyd proffesiynol lofnodi'r cynlluniau terfynol. Dylai copi o'r cynllun hefyd fod ar gael i bob un o'r uchod a dylid mynd â chopi pan fydd y plentyn yn mynd allan ar wibdeithiau ysgol.
- Dylid adolygu cynlluniau gofal iechyd yn flynyddol pan fydd yr ysgol yn cynnal ei hadolygiad blynyddol o'r plentyn neu'r person ifanc. Os oes angen diwygio'r cynllun, dylai gweithwyr iechyd proffesiynol yr ysgol gyfarfod â rhieni a byddai'r cynllun yn cael ei ysgrifennu eto a'i lofnodi gan bob parti. Os oes angen diwygio'r cynllun rhwng adolygiadau, dylid gwneud hynny gyda'r rhieni a sicrhau ei fod yn cael ei lofnodi.

- Pwysigrwydd llunio gweithdrefnau hynod glir mewn perthynas â thriniaeth frys ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion iechyd cymhleth.
- Dylai'r cynllun fod ar gael hefyd i bob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc.
- Dylai copïau o unrhyw ffurflenni perthnasol fod yn rhan o'r cynllun gofal iechyd.

## CYNLLUN GOFAL IECHYD

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol/lleoliad | |
| Enw'r plentyn | |
| Grŵp/dosbarth/blwyddyn | |
| Dyddiad geni | / / |
| Cyfeiriad y plentyn | |
| Diagnosis neu gyflwr meddygol | |
| Dyddiad | / / |
| Dyddiad yr adolygiad | / / |
| Aelod cyswllt y staff | |

**GWYBODAETH GYSWLLT Y TEULU**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif ffôn (gwaith) | |
| Gartref | |
| Symudol | |

**CYSWLLT YN Y CLINIG/YSBYTY**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif ffôn | |

**Meddyg teulu**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif ffôn | |

Disgrifiwch anghenion meddygol a rhowch fanylion symptomau'r plentyn

Gofynion gofal dyddiol (e.e. cyn chwaraeon/amser cinio/gartref/ar wibdeithiau ysgol)

Disgrifiwch beth sy'n argyfwng i'r plentyn, a'r camau i'w cymryd os bydd hyn yn digwydd

Pwy sydd yn gyfrifol mewn argyfwng? (Nodwch os yw'n wahanol ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle)

Copi o'r ffurflen yn mynd i

## FFURFLEN 3A: CYTUNDEB Y RHIENI I'R YSGOL/LLEOLIAD ROI MEDDYGINIAETH

**Ni fydd yr ysgol/lleoliad yn rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn oni bai eich bod yn cwblhau ac yn llofnodi'r ffurflen hon a bod gan yr ysgol neu'r lleoliad bolisi sy'n caniatáu staff i roi meddyginiaeth.**

Enw'r ysgol/lleoliad

Enw'r plentyn

Dyddiad geni / /

Grŵp/dosbarth/blwyddyn

Cyflwr meddygol neu salwch

**Meddyginiaeth**

Enw/math o feddyginiaeth

(Fel y'i disgrifir ar y cynhwysydd)

Dyddiad dosbarthu / / Dyddiad dod i ben / /

Dyddiad adolygu y cytunwyd arno i'w ddechrau gan [enw aelod o staff]

Dos a dull

Amseriad

Rhagofalon arbennig

A oes unrhyw sgil-effeithiau y dylai'r ysgol/lleoliad wybod amdanynt?

Ydy'r plentyn yn cymryd y feddyginiaeth ei hun (dileu fel bo'n briodol) **Ydy/Nac ydy**

Gweithdrefnau ar gyfer argyfwng

**Manylion cyswllt**

Enw

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Perthynas â'r plentyn

Cyfeiriad

Deallaf fod rhaid i mi roi'r feddyginiaeth yn bersonol i [*aelod o staff penodedig*]

Rwy'n derbyn bod hwn yn wasanaeth nad oes dyletswydd ar yr ysgol/lleoliad i'w chyflawni.

Rwy'n deall bod rhaid i mi hysbysu'r ysgol/lleoliad o unrhyw newidiadau yn ysgrifenedig.

Dyddiad  / /  Llofnod(ion) ……………………………………………........

## FFURFLEN 3B: CYTUNDEB RHIENI I'R YSGOL/LLEOLIAD ROI MEDDYGINIAETH

**Ni fydd yr ysgol/lleoliad yn rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn oni bai eich bod yn cwblhau ac yn llofnodi'r ffurflen hon a bod gan yr ysgol neu'r lleoliad bolisi sy'n caniatáu i staff roi meddyginiaeth.**

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol/lleoliad | |
| Dyddiad | / / |
| Enw'r plentyn | |
| Grŵp/dosbarth/blwyddyn | |
| Enw a chryfder y feddyginiaeth | |
| Dyddiad dod i ben | / / |
| Faint i'w roi (h.y. y ddos i'w rhoi) | |
| Pryd i'w roi | |
| Unrhyw gyfarwyddiadau eraill | |
| Nifer tabledi/faint i'w roi i'r ysgol/lleoliad | |

***Sylwch: Rhaid i feddyginiaethau fod yn y cynhwysydd gwreiddiol fel y'u dosbarthwyd gan y fferyllfa***

| | |
|---|---|
| Rhif ffôn rhiant yn ystod y dydd | |
| **neu,** oedolyn cyswllt | |
| Enw a rhif ffôn y meddyg teulu | |
| Dyddiad adolygu y cytunwyd arno i'w ddechrau gan [*enw'r aelod o staff* ] | / / |

Mae'r wybodaeth uchod yn gywir adeg ei hysgrifennu, hyd eithaf fy ngwybodaeth, ac rwy'n caniatáu i staff yr ysgol/lleoliad roi meddyginiaeth yn unol â pholisi'r ysgol/lleoliad. Byddaf yn hysbysu'r ysgol/lleoliad yn syth, yn ysgrifenedig, o unrhyw newid o ran dos y feddyginiaeth neu pa mor aml y dylid ei chymryd neu os nad oes angen y feddyginiaeth bellach.

Printiwch eich enw ………………………………………………………………………………. Dyddiad: / /

Llofnod y rhiant …………………………………………………………………… Dyddiad: / /

Os oes angen rhoi mwy nag un feddyginiaeth dylid cwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob un.

**FFURFLEN 4: CYTUNDEB PENNAETH YR YSGOL/LLEOLIAD I ROI MEDDYGINIAETH**

Enw'r ysgol/lleoliad

| |
|---|
| |

Cytunir y bydd *[enw'r plentyn]* ……………………………………………….yn derbyn

[*dos ac enw'r feddyginiaeth*] ……………………………………………bob dydd am

[*amser rhoi'r feddyginiaeth e.e. amser cinio neu egwyl y prynhawn*]

Bydd [*enw'r aelod o staff*]…………………………..................…… yn rhoi'r feddyginiaeth i [*enw'r plentyn*] ………………………………. neu'n ei oruchwylio wrth ei chymryd.

Bydd y trefniant hwn yn para tan [*naill ai ddyddiad diwedd cwrs y feddyginiaeth neu nes y derbynnir cyfarwyddyd gan y rhieni*]………………………………………………………………….

Dyddiad   /   /

Llofnod ……………………………………………

*(Pennaeth yr ysgol/lleoliad/yr aelod o staff penodedig)*


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**FFURFLEN 5: COFNOD O FEDDYGINIAETH A RODDWYD I BLENTYN UNIGOL**

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol/lleoliad | |
| Enw'r plentyn | |
| Dyddiad derbyn y feddyginiaeth gan y rhiant | / / |
| Grŵp/dosbarth/blwyddyn | |
| Faint a dderbyniwyd | |
| Enw a chryfder y feddyginiaeth | |
| Dyddiad dod i ben | / / |
| Faint a ddychwelwyd | |
| Dos a pha mor aml y defnyddir y feddyginiaeth | |

Llofnod yr aelod o staff ………………………………………….

Llofnod y rhiant …………………….………………………………….

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | / / | / / | / / |
| Amser a roddwyd | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw'r aelod o staff | | | |
| Llythrennau cyntaf yr aelod o staff | | | |
| Dyddiad | / / | / / | / / |
| Amser a roddwyd | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw'r aelod o staff | | | |
| Llythrennau cyntaf yr aelod o staff | | | |

## FFURFLEN 5: PARHAD

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | / / | / / | / / |
| Amser a roddwyd | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw'r aelod o staff | | | |
| Llythrennau cyntaf yr aelod o staff | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | / / | / / | / / |
| Amser a roddwyd | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw'r aelod o staff | | | |
| Llythrennau cyntaf yr aelod o staff | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | / / | / / | / / |
| Amser a roddwyd | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw'r aelod o staff | | | |
| Llythrennau cyntaf yr aelod o staff | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad | / / | / / | / / |
| Amser a roddwyd | | | |
| Dos a roddwyd | | | |
| Enw'r aelod o staff | | | |
| Llythrennau cyntaf yr aelod o staff | | | |

**FFURFLEN 6: COFNOD O FEDDYGINIAETHAU A RODDWYD I BOB PLENTYN A PHERSON IFANC**

**ENW'R YSGOL/LLEOLIAD**

| |
|---|
| |

| Dyddiad | Enw'r plentyn | Amser | Enw'r feddyginiaeth | Dos a roddwyd | Unrhyw adweithiau | Llofnod yr aelod o staff | Enw mewn prif lythrennau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |
| / / | | | | | | | |

## FFURFLEN 7: CAIS I BLENTYN GARIO EI FEDDYGINIAETH EI HUN

*Rhaid i rieni/gwarcheidwaid gwblhau'r ffurflen hon*

**Os oes gan staff unrhyw bryderon dylid trafod y cais hwn â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol**

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol/lleoliad | |
| Enw'r plentyn | |
| Grŵp/dosbarth/blwyddyn | |
| Cyfeiriad | |
| Enw'r feddyginiaeth | |
| Gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng | |

**Gwybodaeth Gyswllt**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd | |
| Perthynas â'r plentyn | |

Rwyf am i'm mab/merch gadw'r feddyginiaeth gyda nhw i'w defnyddio yn ôl yr angen.

Llofnod ………………………………………………….. Dyddiad    /    /

**FFURFLEN 8: COFNOD O HYFFORDDIANT STAFF – RHOI MEDDYGINIAETHAU**

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol/lleoliad | |
| Enw | |
| Math o hyfforddiant a dderbyniwyd | |
| Dyddiad cwblhau'r hyfforddiant | / / |
| Darparwyd yr hyfforddiant gan | |
| Proffesiwn a theitl | |

Rwy'n cadarnhau bod [*enw'r aelod o staff]* ………………………. wedi derbyn yr hyfforddiant a nodir uchod ac yn gymwys i roi unrhyw driniaeth ofynnol.

Rwy'n argymell y dylid diweddaru'r hyfforddiant [*nodwch pa mor aml*] ……………………..

Llofnod yr hyfforddwr ……………………………………..Dyddiad / /

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi derbyn yr hyfforddiant a nodir uchod.

Llofnod staff …………………………………………. Dyddiad / /

Dyddiad adolygu a argymhellir / /


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

**FFURFLEN 9: AWDURDODI RHOI BUCCAL MIDAZOLAM**

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol/lleoliad | |
| Enw'r plentyn | |
| Dyddiad geni | / / |
| Cyfeiriad cartref | |
| Meddyg teulu | |
| Ymgynghorydd yr ysbyty | |

Dylid rhoi Buccal Midazolam ……..mg i …………………………………..

Os yw ef/hi yn cael *ffit epileptig estynedig sy'n para mwy na munudau.

**NEU**

*cyfres o ffitiau sy'n para mwy na ……… o funudau.

Dylid galw ambiwlans *ar ddechrau'r ffit

**NEU**

Os nad yw'r ffit wedi dod o ben *ar ôl ……… o funudau (*dilëwch fel y bo'n briodol)

Llofnod y meddyg ………………………………….. Dyddiad ………………………………

Llofnod y rhiant ………………………………….. Dyddiad ………………………………

**NODER: Awdurdodi rhoi Buccal Midazolam**

Am fod yr arwyddion ar gyfer pryd i roi'r Buccal Midazolam yn amrywio, rhaid cael caniatâd unigol ar gyfer pob plentyn. Dylai meddyg teulu, ymgynghorydd a/neu nyrs arbenigol epilepsi’r plentyn awdurdodi hyn, a’i adolygu’n rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei rhoi'n briodol. Dylai’r awdurdodiad nodi’n glir:

- Pryd y dylid rhoi’r Buccal Midazolam e.e. ar ôl pum munud a
- Faint o feddyginiaeth y dylid ei roi

Dylai’r Ffurflen Awdurdodi nodi brasamcan o bryd i ffonio am ambiwlans.

**Dylid defnyddio Ffurflen 5 neu ffurflen debyg i gofnodi rhoi meddyginiaeth**